# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

Dydd Mercher, 24 Mehefin 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
D.M. Cundy a D. Thomas (Aelod yn Dirprwyo)

**Hefyd yn bresennol:**
A. Brown, Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
B. Owen, Swyddog Buddsodiadau Pensiwn
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 2.00yp - 4.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Jim Jones. Roedd y Cynghorydd Dai Thomas yn bresennol yn y cyfarfod fel Aelod Dirprwyol.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 2AIL MAWRTH, 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020, gan eu bod yn gywir**.

## 4. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2019 - 31 MAWRTH 2020

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r sefyllfa derfynol o ran y gyllideb fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2020. Nodwyd bod tanwariant o'i gymharu â'r gyllideb o £3.0m ar eitemau arian parod. Roedd cyfanswm gwariant o £101.1m a chyfanswm incwm o £104.1m wedi arwain at sefyllfa llif arian cadarnhaol o £3.0m.

O ran gwariant o'r gronfa, adroddwyd mai effaith net y Buddion Taladwy a Throsglwyddiadau oedd gorwariant o £11.2 m o'i gymharu â'r gyllideb. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfandaliadau pensiynwyr gohiriedig a oedd wedi arwain at gynnydd uwch na'r disgwyl yn y pensiwn, a hefyd cyfandaliadau buddion marwolaeth a chyfandaliadau buddion ymddeol. Mae taliadau rhodd (£4.8m), Blynyddoedd Ychwanegol Digolledu, ac Athrawon sy'n Ymddeol Cyn Pryd wedi cael eu cynnwys. Roedd gorwariant o £2.2m ar dreuliau rheolwyr.

O ran incwm y gronfa, bu cynnydd o £16.3m o ran effaith net cyfraniadau, incwm buddsoddi a throsglwyddiadau yn bennaf oherwydd gostyngiad o £2.7m mewn incwm buddsoddi, cynnydd o £5.3m mewn trosglwyddiadau ynghyd â chynnydd o £8.3m mewn cyfraniadau a oedd yn cynnwys taliadau rhodd (£4.8m), Blynyddoedd Ychwanegol Digolledu, ac Athrawon sy'n Ymddeol Cyn Pryd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2019 i 31 Mawrth, 2020.**

## 5. DATGANIAD CYFRIFON 2019-20 HEB EU HARCHWILIO

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon Heb eu Harchwilio Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2019/20, a gynhyrchwyd yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19, sy'n manylu ar y sefyllfa ariannol, perfformiad a hyfywedd ariannol ar gyfer y flwyddyn 2019-20 ynghyd â chanlyniadau stiwardiaeth rheoli h.y. – atebolrwydd rheolwyr o ran yr adnoddau sydd wedi'u hymddiried iddynt a sefyllfa'r asedau ar ddiwedd y cyfnod.

Nodwyd bod sefyllfa'r gronfa, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, yn nodi mai gwerth y cyfanswm asedau oedd £2.384bn, i lawr o £2.575bn yn 2018/19. Roedd hwn yn ostyngiad o £191m mewn asedau net o 2018/19 i 2019/20 gyda gwariant y gronfa, buddion taladwy a throsglwyddiadau yn dod i gyfanswm o £93m.

Nodwyd nad oedd y cyfrifon yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion oedd yn cwympo wedi diwedd y flwyddyn ariannol.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Archwilio Cymru o fewn y terfyn amser statudol ac y byddai Archwilio Cymru yn adrodd eu canfyddiadau'n ôl maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Heb eu Harchwilio Cronfa Bensiwn Dyfed 2019/20.**

## 6. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2020

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed.

Nodwyd ar 31 Mawrth, 2020 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £4.9m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2020.**

## 7. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2020-2021

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried.

Nodwyd gan y Pwyllgor fod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis

Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith. Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016.

O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;

- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau cyflogai/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser ond, erbyn hyn, roedd yr holl gyfraniadau yn gyfredol ac nid oedd achos wedi'i gyfeirio at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi’r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 8. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU 2020-2023

Cafodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w ystyried ar gyfer y cyfnod 2020-2023, a oedd yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2020/23.**

## 9. Y DIWEDDARAF AM BARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru, ynghylch cynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol ynghyd â daliadau'r gronfa bresennol, cynnydd o ran lansio'r gronfa, a diweddariad corfforol ac ymgysylltiad o ran yr LFS.

- Tranche 3 - Incwm Sefydlog
- Tranche 4 - Marchnadoedd sy'n Amlygu
- Tranche 5 - Marchnadoedd Preifat

Hefyd cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 a'r Protocol Ymgysylltu, gan gynnwys dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd allweddol.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod Diweddariad ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei nodi.**

## 10. HYSBYSIAD O GYNNIG GAN CYNGOR Y SIR 9 HYDREF 2019 I DDADFUDDSODDI O DANWYDDAU FFOSIL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi manylion yr Hysbysiad o Gynnig o gyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2019, i dynnu buddsoddiad yn ôl o danwyddau ffosil, a oedd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ddyletswydd ymddiriedol i geisio cael yr enillion ariannol gorau posibl ar gyfer ei aelodau. Nodwyd bod hyn yn un o egwyddorion sylfaenol y broses o reoli Cronfeydd Pensiwn a sefydlwyd o dan y gyfraith. Fodd bynnag, fel buddsoddwr tymor hir sy'n gyfrifol am ofalu am fuddiannau'r buddiolwyr dros nifer o ddegawdau yn y dyfodol, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn ffactor risg sylweddol ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa bensiwn. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y gronfa'n rhannu llawer o'r pryderon ynghylch materion o ran yr hinsawdd a charbon, ac yn gweithio ar lefel cronfa a lefel gyfunol (boed drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru neu gyda Chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gymryd rhagor o gamau o ran yr hinsawdd).

Roedd yr adroddiad yn amlygu bod y Gronfa o'r farn mai ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi oedd yr opsiwn a ffefrir i greu newid wrth reoli materion risg cyffredinol o ran buddsoddi, yn hytrach na thynnu buddsoddiad yn ôl yn llwyr.
Nodwyd hefyd fod gan Gronfa Bensiwn Dyfed lefel gynyddol o fuddsoddiadau mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy gronfeydd ar y cyd a byddai'n parhau i wneud buddsoddiadau o'r fath lle bydd y proffil risg/elw yn cyd-fynd â strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Rhybudd o Gynnig y Cyngor Sir (9 Hydref, 2019) i dynnu buddsoddiad yn ôl o danwyddau ffosil, ac mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i ystyried tynnu buddsoddiad yn ôl o danwyddau ffosil lle mae'r proffil risg/enillion yn cyd-fynd â strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiwn.**

## 11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 MAWRTH 2020

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob

chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'r Pwyllgor eu hystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2020.**

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 MAWRTH 2020

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.**

## 14. ADRODDIAD MYNEGEION CARBON ISEL

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.**

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol gan BlackRock a Baillie Gifford ar Fynegrifau Carbon Isel, a chafodd gyflwyniadau arnynt.

- BlackRock Low carbon equity tracker fund
- Baillie Gifford Global Alpha Paris Aligned

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiadau gan BlackRock a Baillie Gifford ar Fynegrifau Carbon Isel.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**